



YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
E-bost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk



@ysgolpencae
[Dilynwch ni ar Trydar](#)
[Follow us on Twitter](#)

Cylchlythyr Rhif 17 / Newsletter No 17
20.01.2017

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian*

Gwefan – ysgolpencae.cymru / Website - ysgolpencae.wales

Mae'r wefan nawr yn fyw!/*The website is now live!*

Yn dilyn y ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi na chyllido'r wefan ysgol oedd wedi ei lleoli ar Hwb+, penderfynodd y staff, y Corff Llywodraethol ynghyd ag aelodau'r GRhAP bod angen buddsoddi mewn gwefan diwygedig. O ganlyniad, mae ganddon ni wefan newydd sydd wedi ei chynllunio gan Owen Hughes. Ewch i Gwgl gan osod enw Ysgol Pencae iddo er mwyn i'n gwefan fod ar flaen rhestr Gwgl. Mae llawer o wybodaeth ar y wefan eisoes ond bydd yn esblygu gyda mwy o wybodaeth berthnasol yn cael ei gosod arni yn ystod yr wythnosau nesaf. Hyderaf y byddwch yn ymweld â'r wefan hon yn gyson er mwyn cymryd diddordeb pellach yn addysg eich plentyn ynghyd â gweddill cymuned yr ysgol/*Following the fact that Welsh Government was not supporting or financing the school's website that was placed on Hwb+, the staff, Governing Body and PTA members decided that investment was needed to adapt the website. Therefore, we have a new website. Please go to Google and type Ysgol Pencae into the search engine in order for us to be the first on Google's list. There's ample information placed on the website already but this will evolve with more relevant information being placed on it in the next coming weeks. I'm confident that you will regularly visit the website in order for you to take further interest in your child's education as well as in the rest of the school's community.*

Graffiti – Gweithdy Blwyddyn 4/Graffiti – Year 4 workshop

Fel rhan o'n hymgyrch i ymgorffori llais y disgybl i wella golwg esthetig y gofod allanol, mae'r wal wedi ei haddurno gan y disgyblion gyda graffiti sy'n unigryw i Ysgol Pencae. Diolch o galon i Bryce o Peaceful Progress am ei waith gyda'r disgyblion/*As part of our mission to incorporate pupils voice to further enhance the school's outside area aesthetics, the wall has been decorated by the pupils with graffiti on the wall which is unique to Ysgol Pencae. A big thank you to Bryce from Peaceful Progress for his work with the pupils.*



Arolygiad Estyn Inspection

Estynnir gwahoddiad i chi fynychu cyfarfod gyda'r arolygwyr yn yr ysgol ar brynhawn Llun, 30 Ionawr am 3.45pm – 4.45pm. Pe dymunech, bydd cymhorthydd yn gofalu am eich plant yn ystod y cyfnod hwn. Atodaf y cwestiynau fel eich bod yn cael amser i ystyried eich hymatebion. Gwerthfawrogaf pe byddai cymaint â phosibl ohonoch yn mynychu'r cyfarfod hwn. Diolchaf o flaen llaw i chi am eich cydweithrediad.

Dyma'r cwestiynau:

1. Safonau gwaith a chynnydd
2. Ymddygiad a phresenoldeb disgyblion
3. Yr agweddau a'r gwerthoedd y mae'r ysgol yn eu hyrwyddo, yn cynnwys lles disgyblion a ffyrdd iach o fyw
4. Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol (yn cynnwys addysgu a gwaith cartref)
5. Y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael i ddisgyblion
6. Y graddau y mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol
7. Y rhan sydd gan rieni/gofalwyr a'r gymuned ym mywyd yr ysgol
8. Y wybodaeth y mae'r ysgol yn ei darparu ar gyfer rhieni/gofalwyr, yn cynnwys adroddiadau
9. Y graddau y mae'r ysgol yn gofyn am safbwyntiau rhieni/gofalwyr a disgyblion, a'r sylw y mae'n ei roi i awgrymiadau a chwynion
10. Materion eraill a nodwyd gan yr arolygydd arweiniol, e.e. o'r dadansoddiad o'r holiaduron rhieni a disgyblion

You are invited to attend a meeting with the inspectors on Monday afternoon, 30 January at 3.45pm – 4.45pm. If you wish, the teaching assistants will look after your children during this time. I attach the questions that will be asked to you by the inspectors in this meeting in order for you to consider your responses. I would appreciate it if as many parents as possible could attend this meeting. Thank you in advance for your cooperation.

Here are the questions:

1. *Standards of work and progress*
2. *Pupils' behaviour and attendance*
3. *The attitudes and values which the school promotes, including pupils' wellbeing and healthy lifestyles*
4. *The quality of education provided by the school (including teaching and homework)*
5. *The support and guidance available to pupils*
6. *The extent to which the school promotes equality, diversity and racial tolerance*
7. *The part parents/carers and the community play in the life of the school*

8. *The information which the school provides for parents/carers, including reports*
9. *The extent to which the school asks for the views of parents/carers and pupils, and the attention it gives to suggestions and complaints*
10. *Other issues identified by the lead inspector e.g. from the analysis of the parent and pupil questionnaires*

Cyflwyniadau i Rieni/Warchodwyr/Presentations for Parents/Guardians

Lles a Phenlles/Welfare and Mindfulness (16.01.17)

Diolch i'r rhieni a fynychodd y cyflwyniad hwn a diolch arbennig i Mrs S James, Mrs H Hayes a Mrs B Reynolds am eu hamser a'u gwaith paratoi ar gyfer y cyflwyniad hwn. Derbyniwyd clod uchel gan y rhieni a'r Llywodraethwyr trwy gyfrwng y gwerthusiadau am y gwaith arloesol a ddapara'r ysgol parthed Lles holl ddisgyblion yr ysgol. Tybed os byddech chi fel rhieni yn hoffi derbyn chwe sesiwn Penlles gan Mrs S James (ein harbenigwraig Penlles) min nos am gost rhesymol? Cysylltwch gyda fi gydag eich awgrymiadau.

Thank you to all who attended the presentation and also to Mrs S James, Mrs H Hayes and Mrs B Reynolds for their time and effort in preparing the presentation. Praise was given by the parents and governors via the feedback for the innovative welfare provision that is available for each and every pupil. I wonder if you would like to attend six Mindfulness sessions by Mrs S James (our Mindfulness specialist) of an evening for a reasonable cost? Please let me know your thoughts.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm y merched am gystadlu'n ardderchog ac am ymdrechu'n wych yng nghystadleuaeth bêl-droed yr Urdd dydd Mawrth – curo tair gêm ac hefyd yn gyfartal tair gêm - da iawn chi! */Well done for the excellent efforts to the boys football team whilst competing in the Urdd football competition on Tuesday – winning three games and equalising three games - well done!*

Gêmau cyfrifiadurol/Computer Games

Erfynnïaf arnoch i gadw llygad manwl ar y gêm/fideos cyfrifiadurol mae eich plentyn yn eu chwarae gartref. Mae'r disgyblion yn efelychu ymddygiad annerbyniol sydd i'w gweld yn y gêm/fideos hyn ac ni fyddwn yn derbyn ymddygiad annerbyniol ac ymosodol hyn yn yr ysgol. Hyderaf y byddwch yn ein cefnogi fel ysgol parthed y mater difrifol hwn/*I ask you to closely monitor the video/computer games that your child is playing at home. The pupils are emulating the unacceptable behaviour that is seen in these games/videos and we will not tolerate this unacceptable and violent behaviour in school. I am confident that you will work with us regarding this serious issue.*

Dyddiadau Gwasanaethau Agored/*Dates of Open Services:*

- dyddiau **Gwener/*Fridays*** am/at **2.50pm**.

Diolch i'r rhieni ddaeth i'r gwasanaeth p'nawn 'ma/*Thank you to the parents who attended this afternoon's service.*

- **03.03**
- **31.03**

Dyma gyfle i'ch plant ddathlu eu doniau trwy ddangos tystysgrifau, medalau neu dlysau. Mae croeso i chi fel rhieni i ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn/*This is an opportunity for your children to celebrate their talents by showing their certificates, medals or trophies. You are welcome to join us in these assemblies.*

Clybiau Ar Ôl Ysgol / *After School Clubs*

Wythnos yn dechrau / *Week beginning – 23.01.17:*

Côr / *Choir*

Bl/Yr 4 – 6: 15.30pm – 16.30pm
Dydd Llun, 23 Ionawr / *Monday, 23 January*

Clwb Dawns / *Dance Club (Cwmni Dance Fit Company)*

Bl/Yr 5 – 6: 15.30pm – 16.30pm
Dydd Mawrth, 24 Ionawr / *Tuesday, 24 January*

Clwb Chwaraeon / *Sports Club*

Bl/Yr 3 – 6: 15.30pm – 16.30pm
Dydd Mawrth, 24 Ionawr / *Tuesday, 24 January*

Clwb Jiwdo / *Judo Club*

15.30pm – 16.30pm
Dydd Mercher, 25 Ionawr / *Wednesday, 25 January*

Clwb / *Mad Science Club*

15.30pm – 16.30pm
Dydd Mercher, 25 Ionawr / *Wednesday, 25 January*

Clwb Hwb / *Hwb Club*

(aelodau Clwb Hwb yn unig/
Clwb Hwb members only)

15.30pm – 16.30pm
Dydd Iau, 26 Ionawr / *Thursday, 26 January*

Clwb Dawns / *Dance Club*

(Sgwad yn unig/*Squad only*)

15.30pm – 16.30pm
Dydd Iau, 26 Ionawr / *Thursday, 26 January*

Clwb Dawnsio Gwerin /

Folk Dancing Club

(Tîm Bl 3 yn unig/
Yr 3 team only)

15.30pm – 16.30pm
Dydd Iau, 26 Ionawr / *Thursday, 26 January*

Dyddiadau pwysig/*Important dates:*

Sylwer fod gweithgareddau CRhAP wedi eu hychwanegu at y rhestr/
Please note that the PTA events have been added to the list

- 30.01: Cyfarfod rhieni gydag arolygwyr Estyn/*Parents meeting with the Estyn inspectors*
(3.45pm – 4.45pm)
- 16.02: Clwb Ffilm/*Film Club – Trolls (CRhAP/PTA) am/at 5.30 yn neuadd yr ysgol/main hall*
- 20 – 24.02: Hanner tymor/*Half term*
- 01.03: Dathlu Dydd Gŵyl Dewi – croeso i rieni y Dosbarth Derbyn i ymuno â ni – mwy o fanylion i ddilyn/*St David's Day celebrations – Reception parents are welcome to join us – more details to follow*
- 04.03: Eisteddfod Gylch Yr Urdd - mwy o fanylion i ddilyn
Area Urdd Eisteddfod – more details to follow
- 06 - 17.03: Blwyddyn 3 yn nofio/*Year 3 swimming*
- 07.03: Eisteddfod Ddawns/*Dance Eisteddfod*
- 12.03: Taith feicio noddedig/*Sponsored bike ride – Pontcanna (1.00pm – 5.30pm)*
- 23.03: Eisteddfod offerynnol (yn ystod y diwrnod ysgol)/*Instrumental Eisteddfod (during the school day)*
- 28 & 30.03: Nosweithiau Rhieni/*Parents evening – mwy o fanylion i ddilyn/details to follow*
- 25.03: Eisteddfod Sir yr Urdd – mwy o fanylion i ddilyn
County Urdd Eisteddfod – more details to follow
- 30.03: Eisteddfod Cyflwyniad Dramatig/*Dramatic Presentation Eisteddfod*
- 05 – 07.04: Blwyddyn 4/*Year 4 – Maes y Fron*
- 24.04: Dyddiad cau ar gyfer cystadlaethau celf, dylunio a thechnoleg yr Urdd - mwy o fanylion i ddilyn. Thema: Y dyfodol/*Closing date for the Urdd art, design and technology competitions – more details to follow. Theme: The Future*
- 28.04: Diwrnod DPP/*CPD Day: clwstwr Ysgol Glantaf cluster – dim ysgol i unrhyw ddisgybl/no school for any pupil*
- 03 – 10.05: Profion Cenedlaethol/*National Tests (Bl/Yr 2 – Bl/Yr 6)*
- 16.05: Twmpath Dawns/*Folk Dancing – lleoliad i'w drefnu/location to be arranged*
(6.00pm – 9.00pm)

29.05 – 03.06: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Penybont/*Bridgend*

30.06: *Ffair Haf/Summer Fair*

01.07: Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn canu yn Tafwyl/*Foundation Phase pupils singing in Tafwyl am/at 4.30pm*

21.07: Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd/*Last day of the academic year*

Gyda diolch,

R R Thomas
Pennaeth